Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Court Road
# Dyddiad y gweithgarwch: 04 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 08 Mehefin 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80364-305-2

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Court Road fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis deintyddol hwn wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n cynnig triniaethau a gwasanaethau ar gyfer y GIG a thriniaethau a gwasanaethau preifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 4/5/2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom adolygu'r dogfennau allweddol a restrir uchod a chadarnhau eu bod oll wedi'u cwblhau i safon ddigonol a'u dyddio.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y newidiadau a wnaed er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 ym mannau cymunol ac ystafelloedd triniaeth y practis. Mae'r practis yn cadw'r drws blaen dan glo ar hyn o bryd er mwyn atal unrhyw un nad oes apwyntiad ganddynt rhag dod i mewn i'r practis.
Mae apwyntiadau'n hirach er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith glanhau ychwanegol rhwng cleifion, ac mae llai o gadeiriau yn y man aros er mwyn cadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym hefyd fod arwyddion yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis i annog cleifion i wisgo masgiau i'w hapwyntiad a defnyddio'r gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r practis. Mae ffaniau echdynnu wedi'u gosod ym mhob ystafell driniaeth , ac mae sgriniau amddiffynnol o amgylch desg y dderbynfa.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod pob apwyntiad yn cael ei drefnu dros y ffôn a bod staff y dderbynfa yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol ynglŷn â COVID-19 i gleifion wrth drefnu eu hapwyntiad.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd am y prosesau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig er mwyn trin cleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, neu gleifion yr amheuir eu bod yn bositif, mewn modd diogel. Byddai'r staff yn cyfeirio'r claf o dan sylw at yr allanfa dân gefn, a ddefnyddir i fynd i mewn ac allan o'r adeilad. Yna, mae staff sy'n gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn yn cyfeirio'r claf drwodd i'r ystafell driniaeth ddynodedig, sydd agosaf at y drws, er mwyn atal y claf rhag gorfod mynd drwy'r man aros. Os oes angen i glaf risg uchel drefnu apwyntiad, dywedwyd wrthym y bydd staff yn ceisio trefnu apwyntiadau boreol,

er mwyn osgoi croesi â chleifion eraill.

Dywedwyd wrthym nad oes gan y practis unrhyw gleifion sydd wedi gofyn i gyfathrebu yn Gymraeg ar hyn o bryd. Ceir posteri dwyieithog ym mhob rhan o'r practis a dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod wedi penodi cwmni cyfieithu Cymraeg er mwyn sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn ddwyieithog ar draws y practis. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r practis hefyd os oes angen.

Mae pob ystafell driniaeth yn cynnwys cyfarpar ar gyfer cynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau[1], a chawsom wybod bod unedau echdynnu aer wedi'u gosod ym mhob un ohonynt i sicrhau bod yr aer yn cael ei newid digon o weithiau pob awr ar gyfer pob ystafell driniaeth. Mae pob aelod o staff yn gwisgo a diosg[2] cyfarpar diogelu personol cyn mynd i mewn i'r ystafelloedd triniaeth a defnyddir system nyrs gyfaill i dywys cleifion allan yn dilyn eu hapwyntiad. Bydd y nyrs gyfaill hefyd yn casglu unrhyw offer ychwanegol sydd ei angen yn ystod gweithdrefnau.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Amserlen lanhau ystafelloedd triniaeth ar gyfer yr wythnos ddiwethaf
- Copi o'r polisi glanhau
- Copi o'r archwiliad dihalogi diweddaraf a gynhaliwyd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Copïau o'r cofnodion dyddiol o wiriadau ar gyfer pob awtoclaf (ar gyfer y pythefnos diwethaf)
- Copi o'r weithdrefn lawn ar gyfer glanhau â llaw

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.
[2] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Darparwyd dogfennau amrywiol i ni ynghylch atal a rheoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd o amserlenni glanhau'r practis a pholisi glanhau, yn ogystal â chofnodion ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer yn yr ystafelloedd triniaeth a chopi o'r archwiliad dihalogi cyflawn a gynhaliwyd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y rhain i gyd yn gyflawn.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant mewnol ar y defnydd cywir o fasgiau FFP3 a gwisgo a diosg. Darparwyd hyfforddiant hefyd ar ymolchi dwylo a sut i ddelio â chleifion o bell. Dywedwyd wrthym hefyd fod porth hyfforddi ar-lein ar gael i staff a'u bod i gyd wedi cwblhau eu hyfforddiant gloywi ar ddiogelu yn rhithwir.

Mae unrhyw newidiadau i bolisïau atal a rheoli heintiau yn cael eu cyfleu i staff drwy gyfarfodydd â rheolwr y practis, ac mae copïau caled o bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hargraffu i staff eu llofnodi a'u dyddio ar ôl eu darllen.

Cawsom wybod bod y practis wedi'i chael hi'n anodd cyrchu stoc o gyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig a bod prisiau wedi cynyddu'n sylweddol, ond dechreuodd y bwrdd iechyd lleol ddarparu stoc yn amlach. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod ganddo gysylltiadau da â phractisau deintyddol eraill yn yr ardal, y gallent gyfnewid a rhannu stoc o gyfarpar diogelu personol â hwy yn ôl yr angen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, fe holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion.
- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisi / gweithdrefn cydsyniad gwybodus
- Copi o bolisi diweddaraf COVID-19
- Cynllun parhad busnes ar gyfer y practis
- Cofnod o'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi diweddaru eu hyfforddiant gorfodol ac yn cydymffurfio ag ef. Gwelsom hefyd dystiolaeth o daflen gyflawn o wybodaeth i gleifion, yn ogystal â pholisïau cyfredol ar gyfer COVID-19 a chydsyniad gwybodus.

Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cyflwynir unrhyw ganllawiau diweddaredig ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i staff drwy reolwr y practis yn ystod cyfarfodydd tîm.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith mewn argyfwng meddygol (e.e. yn achos claf sydd wedi llewygu). Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod system ar waith lle mae rheolwr y practis yn gwirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys yn wythnosol er mwyn sicrhau nad ydynt wedi dyddio a’u bod yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i wirio'r silindr ocsigen a'r diffibriliwr bob dydd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n siarad â rheolwr y practis ac yn sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal bob dydd wrth symud ymlaen.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben[3], a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[3] Ystyr “datganiad o ddiben” (“statement of purpose”) yw’r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen 1.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.